# BWRDD GWEITHREDOL

## 16 TACHWEDD 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: D.M. Cundy.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol;
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
J. Corner, Swyddog Technegol;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: - 10:00yb - 10:40yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Linda Davies Evans - yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai a Mr Jake Morgan - y Cyfarwyddwr Cymunedau.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Cefin Campbell | 6 - Polisi Codi Tâl Mynediad i Gefn Gwlad – Celfi Llwybrau Cyhoeddus | Mae llwybr troed cyhoeddus yn mynd drwy dir y mae'n berchen arno. |

### 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 2AIL TACHWEDD, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd, 2020 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. POLISI CODI TÂL MYNEDIAD I GEFN GWLAD - CELFI LLWYBR CYHOEDDUS

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi manylion polisi codi tâl a ddatblygwyd gan y gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad i gyflwyno dull o adennill cyfran o'r gwariant presennol sydd ynghlwm wrth gyflenwi a gosod celfi llwybrau cyhoeddus ar ran tirfeddianwyr.

Nododd yr adroddiad fod Adran 146 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn ei gwneud yn ofynnol i'r tirfeddiannwr gynnal a chadw unrhyw gamfa neu gât ar draws llwybr troed, llwybr ceffylau, neu gilffordd gyfyngedig.

Nododd y Bwrdd fod y polisi arfaethedig wedi'i ystyried yn ofalus i gyflwyno lefel briodol a theg o adennill costau ar gyfer cyflenwi a gosod celfi gan yr Awdurdod yn ogystal â ffurfioli consesiynau mewn rhai amgylchiadau. Roedd y polisi hefyd yn darparu cyfres glir o reolau ar gyfer darparu celfi a fyddai'n rhoi gwybod i dirfeddianwyr am eu cyfrifoldebau statudol ac yn cynorthwyo staff Mynediad i Gefn Gwlad i gynnig cymorth cyson, teg a rhesymol i dirfeddiannwr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo mabwysiadu Polisi Codi Tâl ar gyfer cyflenwi a gosod celfi llwybrau cyhoeddus ar draws y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.**

## 7. EGLWYS GYMUNEDOL TYWI – BOWLIO XCEL

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnig cefnogi cais a gyflwynwyd gan Ganolfan Bowlio Xcel a changhennau elusennol Eglwys Gymunedol Tywi i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd cyfagos. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod ymrwymiad cyllid ar gael fel grant, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hwy Bowlio Xcel a phrosiectau cysylltiedig.

Cydnabu'r Bwrdd fod Bowlio Xcel a phrosiectau cysylltiedig yn darparu prosiectau hanfodol gan gynnwys Banc Bwyd, Siop Gymunedol ac Ailgylchu Celfi a'i bod wedi gweithio gyda mwy na 50 o asiantaethau atgyfeirio gweithredol yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau, gan gynnwys y Cyngor, i ddiwallu anghenion teuluoedd difreintiedig.

Cydnabu'r Bwrdd y byddai pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi cael effaith sylweddol ar lawer o brosiectau eraill ac awgrymodd y byddai'n ddoeth llunio meini prawf i baratoi ar gyfer ceisiadau am gymorth yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL GYMERADWYO:**

**7.1 ymrwymo swm o £50,000 i Eglwys Gymunedol Tywi i gefnogi Bowlio Xcel a phrosiectau cysylltiedig gan ganiatáu iddynt barhau i fasnachu. Byddai hyn yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn adrannol. Byddai'r cyllid yn cael ei roi fel grant i'w dynnu yn ôl y gofyn;**

**7.2 pe bai angen arian ychwanegol ar Eglwys Gymunedol Tywi i gefnogi ei gweithrediad parhaus, byddai cynyddu ei benthyciad presennol hyd at £50,000 yn cael ei ganiatáu.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst 2020, o ran 2020/2021. Roedd y sefyllfa gyllidebol yn cydnabod y pwysau ychwanegol sylweddol a roddwyd ar yr Awdurdod wrth ymateb i bandemig Covid-19.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant diwedd blwyddyn o £3,971k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £4,971k ar lefel adrannol. Nododd y Bwrdd Gweithredol fod y sefyllfa na welwyd ei thebyg o'r blaen yn deillio o gyfuniad o gostau ychwanegol na ellid eu hadennill o ganlyniad i weithgarwch Covid-19, incwm a ildiwyd o ran gwasanaethau a oedd wedi cau yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol ac a oedd yn parhau i gael llai o refeniw, na chaiff ei ad-dalu'n llawn o bosibl gan Lywodraeth Cymru, a chynigion arbedion arfaethedig nad ydynt wedi'u cyflawni oherwydd y pandemig.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod yr Awdurdod yn cyflwyno hawliad caledi misol i Lywodraeth Cymru am wariant Covid-19 ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf o'r costau'n cael eu had-dalu, er bod rhai yn cael eu hystyried yn anghymwys, yn benodol mewn cysylltiad â phenderfyniadau lleol.

Yng ngoleuni'r gorwariant sylweddol a ragwelwyd ar lefel adrannol, gofynnwyd i Brif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth adolygu'r opsiynau a oedd ar gael iddynt yn feirniadol i gyfyngu ar y gorwariant a ragwelwyd ar gyllidebau, yn ogystal â chydnabod y pwysau yr oedd Covid-19 wedi'u rhoi ar gyllideb gyffredinol yr Awdurdod.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymateb ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi yn y sectorau hamdden, diwylliant a theatr.

Diolchodd y Bwrdd Gweithredol yn ddiffuant i staff adran y Gwasanaethau Corfforaethol am addasu i'r ffordd newydd o weithio drwy'r pandemig a'u holl waith caled wrth baratoi cyllid a rheoli gwariant y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 Derbyn adroddiad monitro'r gyllideb, a rhoi ystyriaeth i'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol.**

**8.2 Bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn feirniadol i gyfyngu ar y gorwariant a ragwelwyd ar gyllidebau, yn ogystal â chydnabod y pwysau y mae Covid-19 wedi'u rhoi ar gyllideb gyffredinol yr Awdurdod.**

## 9. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2020-21

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf ar gyfer rhaglen gyfalaf 2020/21 fel yr oedd ar 31 Awst, 2020, ac yn nodi cyfres o drosglwyddiadau y gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol eu cymeradwyo.

Yn adrannol, dywedwyd y rhagwelwyd gwariant net o £63,428k o gymharu â chyllideb net weithredol o £114,264k gan roi -£50,836k o amrywiant.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y cynlluniau ychwanegol canlynol, a oedd wedi cael cyllid uniongyrchol, i'r Rhaglen Gyfalaf:-

- Tai Preifat;
- Dechrau'n Deg;
- Amgueddfa'r Sir;
- Dwyrain Cross Hands – Llain 3 a
- Re-fit Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 Derbyn adroddiad diweddaru'r rhaglen gyfalaf.**
**9.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau y manylir arnynt yn yr adroddiad.**

## 10. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau o ran materion brys.

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**